Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

O'r Trysorlys i Dreorci: Cynyddu'r Nifer sy'n Derbyn y Credyd Pensiwn yng Nghymru

Diweddariad ar y cynnydd

Mae'r Credyd Pensiwn yn darparu arian ychwanegol i bobl sy'n hŷn nag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth sydd ar incwm isel a gall fod o gymorth i gwrdd â chostau byw. Mae'r Credyd Pensiwn yn ychwanegiad sy'n cynyddu incwm wythnosol person sengl i £201.05 ac incwm cwpl i £306.85.[1]

Yn ogystal â hyn, mae'r Credyd Pensiwn yn agor y drws at hawliau eraill i dderbyn cymorth ariannol ychwanegol, yn cynnwys gostyngiadau yn y dreth gyngor a help i dalu costau tai, gofal deintyddol ac optegol am ddim, a Thrwyddedau Teledu am ddim i bobl 75+ oed.[2]
Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi amcangyfrif mai dim ond oddeutu dwy ran o dair o'r rheini sy'n gymwys sydd yn hawlio'r Credyd Pensiwn, a bod y cyfraddau hawlio yn is ymysg y rheini sydd dros 75 oed, fel bod degau o filoedd o bobl hŷn ledled Cymru yn mynd heb gymorth ariannol hollbwysig.[3]

Oherwydd hyn, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi bwrw ymlaen â rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod y Credyd Pensiwn yn cyrraedd pobl hŷn yng Nghymru sy'n mynd hebddo ar hyn o bryd.

Cynyddu'r nifer sy'n derbyn y Credyd Pensiwn yng Nghymru

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddwyd papur briffio gan y Comisiynydd yn tynnu sylw at y pwysigrwydd a'r manteision o gynyddu'r nifer sy'n derbyn y Credyd Pensiwn yng Nghymru. Roedd y papur yn amlinellu'r camau y byddai'r Comisiynydd yn eu cymryd i hyrwyddo hyn, a hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gydweithio â'r trydydd sector a grwpiau cymunedol i nodi pobl hŷn a all fod yn gymwys i dderbyn y Credyd Pensiwn a'u cynorthwyo i hawlio pob peth y mae ganddynt hawl i'w gael.

Yn ogystal â chymryd y camau hyn, cynhaliwyd Uwchgynhadledd gan y Comisiynydd ar 8 Rhagfyr 2022, i ddod â nifer o wahanol bartneriaid a rhanddeiliaid ynghyd i ysgogi a chefnogi camau gweithredu ledled Cymru. Roedd nifer o unigolion a sefydliadau allweddol yn bresennol

[1] Gweler Pension Credit: UK Government (heb ddyddiad) What you'll get. Ar gael yn: Pension Credit: What you'll get - GOV.UK (www.gov.uk)
[2] Pensions Policy Institute (2022) Pension Facts. Ar gael yn: https://www.pensionspolicyinstitute.org.uk/media/4139/pension-facts-august-2022.xlsx
[3] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. (2023) Deall poblogaeth Cymru sy'n heneiddio. Ar gael yn: https://olderpeople.wales/wp-content/uploads/2023/06/Understanding-Wales-Older-Population-June-23-CYM.pdf, t.9.

yn yr Uwchgynhadledd ac wedi cyfrannu syniadau ac addo gweithredu i helpu i estyn llaw a chynorthwyo pobl sydd ar eu colled ar hyn o bryd.

Dysgu gwersi o'r Uwchgynhadledd

Roedd y prif wersi a ddysgwyd o'r Uwchgynhadledd yn ymwneud â'r canlynol:

- Iaith a'r angen i osgoi unrhyw awgrym mai rhodd yw'r Credyd Pensiwn – mae'n *hawl* sydd gan bobl hŷn.

- Ymwybyddiaeth a chyfathrebu effeithiol – nid oes digon o ymwybyddiaeth eto o'r Credyd Pensiwn a'r gwahanol hawliau ychwanegol y mae'n agor y drws atynt. Mae angen cyfeirio negeseuon at bobl hŷn yn benodol a pheidio â dibynnu'n llwyr ar ymgyrchoedd neu negeseuon ar-lein.

- Rhwystrau, yn cynnwys stigma, cywilydd a drwgdybiaeth – gallai pobl hŷn deimlo cywilydd wrth gyfaddef bod arnynt angen y cymorth ychwanegol sydd ar gael drwy'r Credyd Pensiwn. Mae hefyd yn bosibl y byddai derbyn cymorth ariannol a hawliau eraill yn gallu ymddangos 'yn rhy dda i fod yn wir'.

- Cyngor a chymorth yn ystod y broses hawlio – mae'n bwysig iawn darparu cymorth i ddilyn y broses hawlio ac i lenwi ffurflenni, yn enwedig cymorth wyneb yn wyneb.

- Ar incwm isel, ond yn anghymwys i gael cymorth – mae angen gwneud rhagor o waith i weld sut y gellid cynnig mwy o gymorth i bobl hŷn sy'n rhygnu byw ar incwm isel ac yn cael eu bod ychydig yn uwch na'r trothwy incwm – o ddim ond ychydig geiniogau weithiau – ac felly'n methu â chael y cannoedd o bunnoedd o gymorth ychwanegol sydd ar gael drwy fod yn gymwys i dderbyn y Credyd Pensiwn.

Roedd yr Uwchgynhadledd hefyd wedi tynnu sylw at nifer o arferion da sy'n cael eu cyflawni gan sefydliadau'r trydydd sector, fel Age Cymru, ac awdurdodau lleol – a rannodd enghreifftiau o ddefnyddio Canolfannau Croeso Cynnes neu Ganolfannau Clyd i hybu ymwybyddiaeth o'r Credyd Pensiwn.

Cafwyd cydnabyddiaeth gan yr holl siaradwyr a phanelwyr – yn cynnwys Llywodraeth Cymru a DWP – fod angen gwneud rhagor i annog a chynorthwyo pobl hŷn i hawlio'r Credyd Pensiwn, ac ymrwymiadau i barhau â'r cynnydd a welwyd drwy'r ymgyrchoedd a mentrau presennol.

Cynnydd ar ôl yr Uwchgynhadledd

Cafwyd cynnydd ar yr holl gamau gweithredu a bennwyd yn yr Uwchgynhadledd, fel a ganlyn:

- Mae'r Comisiynydd yn parhau i drafod y Credyd Pensiwn a materion costau byw yn uniongyrchol â phobl hŷn drwy wahanol grwpiau a chyfarfodydd, yn cynnwys trafod â chadeiryddion grwpiau pobl hŷn a phartneriaid Cymunedau Oed-gyfeillgar. Hefyd, mae negeseuon am y Credyd Pensiwn – beth yw ef, pwy sy'n gallu ei gael a sut i wneud cais amdano – yn cael eu cynnwys yn gyson mewn cyfathrebu gan y Comisiynydd, yn cynnwys cylchlythyrau a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd y Credyd Pensiwn mewn cyfarfodydd a grwpiau, yn cynnwys drwy is-grŵp penodol i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynyddu Incwm sy'n canolbwyntio ar y Credyd Pensiwn. Cafwyd trafodaethau hefyd am y ffyrdd mwyaf effeithiol i dynnu sylw at y Credyd Pensiwn drwy'r ymgyrch 'Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi' sy'n annog pobl i dderbyn cymorth y mae ganddynt hawl i'w gael.

- Ysgrifennodd y Comisiynydd at y Gweinidog dros Bensiynau, Laura Trott AS, gan rannu copi o'i hadroddiad ar yr Uwchgynhadledd Credyd Pensiwn a chodi'r mater o bobl hŷn ar incwm isel sy'n anghymwys ac felly'n methu â chael cannoedd o bunnoedd o gymorth ychwanegol.

- Yn ei hymateb, tynnodd y Gweinidog sylw at ymgyrch gyfathrebu bresennol Llywodraeth y DU, yn cynnwys camau diweddar i hyrwyddo'r Credyd Pensiwn drwy hysbysebu ar y teledu; cynnydd yn ffigurau diweddaraf y llwyth achosion Credyd Pensiwn yn dangos y cynnydd chwarterol cyntaf ers mwy na degawd; a nodi bod swyddogion yn cynnal trafodaethau â nifer o awdurdodau lleol, yn ogystal â rhanddeiliaid yng Nghymru, i gefnogi ymgyrchoedd eraill ar y Credyd Pensiwn ac ystyried beth ellir ei wneud yn rhagor i annog pobl hŷn gymwys yng Nghymru i hawlio'r Credyd Pensiwn. Mae tîm y Comisiynydd hefyd mewn cysylltiad â swyddogion yn yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gefnogi gwaith i annog mwy o bobl hŷn i dderbyn cymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael.

- Parhawyd â thrafodaethau cadarnhaol rhwng y Comisiynydd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) am ffyrdd i gynyddu'r nifer sy'n derbyn y Credyd Pensiwn a hybu'r ymwybyddiaeth ohono, ac mae awdurdodau lleol a chynghorwyr wedi tynnu sylw at arferion da penodol ar gyfer cyrraedd pobl hŷn a'r gwahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud. Mae cyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol i sicrhau y bydd y Credyd Pensiwn yn parhau'n destun trafod yn ystod yr haf.

- Sefydlwyd tudalen 'Arfer Da' ar wefan y Comisiynydd i ddangos enghreifftiau o gamau effeithiol a gymerwyd gan unigolion a sefydliadau i hyrwyddo'r Credyd Pensiwn. Mae nifer o Addewidion Credyd Pensiwn – yn disgrifio'r camau bach a mawr a gymerir i helpu pobl hŷn i'w hawlio – wedi'u cynnwys ar y wefan hefyd. Gwnaed addewidion gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford; y Gweinidog Cyfiawnder

Cymdeithasol, Jane Hutt; y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan; nifer o wleidyddion eraill a nifer o bartneriaid allweddol.

Camau pellach

Mae angen parhau i ganolbwyntio ar gynyddu'r nifer sy'n derbyn y Credyd Pensiwn drwy gydol yr haf wrth i'r argyfwng costau byw barhau ac mae'r Comisiynydd, yn ogystal â nifer o sefydliadau eraill yng Nghymru, eisoes wedi tynnu sylw at yr angen i baratoi nawr ar gyfer hydref/gaeaf 2023-24. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y bydd pobl hŷn, yn enwedig y rheini ar incwm isel, yn y lle gorau posibl erbyn y gaeaf nesaf.

Mae angen gwneud rhagor hefyd i sicrhau'r defnydd gorau o'r data sydd eisoes yn cael eu dal gan awdurdodau lleol er mwyn nodi pobl a all fod yn gymwys i dderbyn y Credyd Pensiwn ond sy'n mynd hebddo ar hyn o bryd, ac estyn llaw atynt. Mae enghreifftiau da o bob rhan o Brydain wedi'u cynnwys mewn pecyn cymorth a gynhyrchwyd yn ddiweddar gan Independent Age.[4]

Mae Policy in Practice hefyd wedi cydweithio ag awdurdodau lleol yn Lloegr, yn cynnwys Awdurdod Llundain Fwyaf, i ddefnyddio data sy'n cael eu dal gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd i dargedu pobl hŷn sydd heb gael y Credyd Pensiwn a chynyddu'r nifer sy'n ei dderbyn, ac wedi cael cryn lwyddiant.[5] Yn ôl eu hamcangyfrif, mae'n bosibl, drwy ddefnyddio setiau data presennol yr awdurdodau lleol ledled Cymru a gyflenwyd eisoes i DWP, y byddent yn gallu helpu i nodi tua 4,000 o aelwydydd sy'n hysbys i'w hawdurdod lleol ac sy'n gymwys i dderbyn y Credyd Pensiwn ond sydd heb ei hawlio. Mae Policy in Practice wedi amcangyfrif hefyd y byddent wedyn yn gallu helpu un rhan o dair o'r aelwydydd hyn i dderbyn y budd-dal o fewn chwe mis, a hynny'n werth tua £4.1 miliwn y flwyddyn. Lle mae awdurdodau lleol wedi rhoi cymorth wedyn, os oedd angen, i helpu preswylwyr i hawlio'r budd-dal, maent wedi gweld 60%+ o breswylwyr yn llwyddo i sicrhau Credyd Pensiwn.[6]

Byddai hefyd o gymorth os oedd data ar gyfraddau derbyn y Credyd Pensiwn ar gael yn gynt. Gan fod ffigurau am y llwyth achosion yn cael eu diweddaru bob tri mis, ceir oedi o tua chwe mis fel mai'r data diweddaraf sydd ar gael am gyfraddau derbyn – a allai roi mewnwelediad pwysig i effaith a/neu lwyddiant ymgyrchoedd a mentrau – yw rhai sy'n dyddio o fis Tachwedd 2022.

Y camau nesaf

Wrth gynllunio ar gyfer hydref/gaeaf 2023-24, mae angen integreiddio'r gwersi a ddysgwyd o'r Uwchgynhadledd Credyd Pensiwn yng ngwaith Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol, DWP ac eraill.

Mae hyn yn amrywio o ddysgu gwersi am yr iaith a'r termau a ddefnyddir i gamau i sicrhau bod cymorth, adnoddau a chyllid yn cael eu darparu i annog a galluogi pobl hŷn i wneud cais am y

[4] Independent Age (2023) Local activity to increase Pension Credit uptake. Ar gael yn: https://www.independentage.org/sites/default/files/2023-03/Pension_Credit_toolkit.pdf
[5] Policy in Practice (2022) Unclaimed Pension Credit - value by local authority. Ar gael yn: Unclaimed Pension Credit - value by local authority - Policy in Practice
[6] Gwybodaeth a ddarparwyd gan Policy in Practice, ar sail profiadau hyd yn hyn.

Credyd Pensiwn, yn cynnwys cymorth i sefydliadau'r trydydd sector ac ar gyfer gwasanaethau wyneb yn wyneb, sy'n cael eu hystyried yn bwysig iawn.

Mae angen rhoi sylw i fater 'ymyl y dibyn' mewn perthynas â chymhwystra i dderbyn y Credyd Pensiwn lle mae pobl hŷn sy'n anghymwys – efallai o ddim ond ychydig geiniogau – yn gallu bod ar eu colled o gannoedd o bunnoedd. Er mai Llywodraeth y DU sydd â'r gallu i newid hyn, gall Llywodraeth Cymru barhau i argymell newid ac asesu sut y byddai ei chynlluniau ei hun ar gyfer cymorth i gwrdd â chostau byw yn gallu cyrraedd pobl hŷn sydd yn y sefyllfa hon.

Hefyd dylai Llywodraeth Cymru gydweithio ag awdurdodau lleol i ddod o hyd i ffyrdd arloesol i ddefnyddio'r data presennol i dargedu pobl hŷn nad ydynt yn derbyn y Credyd Pensiwn ar hyn o bryd. Gallai fod yn fantais mabwysiadu dulliau tebyg i'r rheini a ddisgrifiwyd gan Policy in Practice ac Independent Age wrth gyflawni hyn.

Ochr yn ochr â hyn, bydd y Comisiynydd yn parhau i wneud popeth yn ei gallu i hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Credyd Pensiwn ac o'r effaith lesol y mae'n ei chael ar fywydau pobl, yn ogystal â rhoi pobl hŷn mewn cysylltiad â sefydliadau a gwasanaethau sy'n gallu eu helpu i hawlio'r holl gymorth y mae ganddynt hawl iddo.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Rhif ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @comisiwnphcymru